**Bwrdd Trafnidiaeth Cymru**

**Cofnodion cyfarfod 16 Gorffennaf 2026**

**Cynhaliwyd yn Y Storfa, Abertawe**

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | |
| Vernon Everitt | Aelod Anweithredol a Chadeirydd |
| Heather Clash | Prif Swyddog Cyllid, Llywodraethu a Gwasanaethau Corfforaethol |
| Rhian Langham | Aelod Anweithredol |
| Vinay Parmar | Aelod Anweithredol |
| James Price | Prif Swyddog Gweithredol |
| Marcia Sinfield | Aelod Anweithredol |
| Peter Strachan | Aelod Anweithredol |
| **Hefyd yn bresennol:** | |
| Sam Hadley | Cyfarwyddwr Gweithredol – Polisi Strategol |
| Ian Lucas | Aelod anweithredol cyswllt |
| Stephen Morgan | Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol a Chydymffurfiaeth Cynorthwyol |
| Ceri Taylor | Arweinydd Gwasanaethau Corfforaethol |
| Lorenzo Visentin | Cyfarwyddwr Diogelwch a Risg (Eitem 3) |
| Lee Robinson | Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Trafnidiaeth Ranbarthol ac Integreiddio (Eitem 5) |
| Jon Travis | Sylwedydd (Llywodraeth Cymru) |
| James Davies | Pennaeth Peirianneg a Thrafnidiaeth, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| Jeremy Hurley | Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a Thwf Economaidd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| Martin Nicholls | Prif Weithredwr, Cyngor Abertawe |
| Rob Stuart | Arweinydd, Cyngor Abertawe |

**1. Croeso, ymddiheuriadau, cworwm, datganiadau a chofnodion blaenorol**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Gan fod cworwm, cyhoeddodd y Cadeirydd fod y cyfarfod yn agored.

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mehefin 2026 yn gofnod cywir. Nododd y Bwrdd y log camau gweithredu.

**2. Sylw i ddiogelwch**

Myfyriodd y Bwrdd ar ddiwylliant diogelwch, gan gynnwys pwysigrwydd perchnogaeth unigol, ymyrryd pan fydd risgiau'n cael eu nodi, ac osgoi tybiaethau bod rhywun arall yn gyfrifol. Trafododd yr aelodau'r angen i herio arferion a dderbynnir a chynnal diwylliant adrodd cryf ar draws pob dull trafnidiaeth.

**2.1 Sylw i Rhwydwaith T**

Trafododd y Bwrdd ymatebion y cyhoedd i ddigwyddiadau trafnidiaeth diweddar a'r bwlch sy'n gallu bodoli rhwng dealltwriaeth y diwydiant a chanfyddiad cwsmeriaid. Roedd yr aelodau'n cydnabod nad oedd esboniadau technegol ar eu pen eu hunain bob amser yn ddigon i gynnal hyder y cyhoedd ac y dylai TrC barhau i ganolbwyntio ar gyfathrebu clir a negeseuon sy'n canolbwyntio ar y cwsmer yn ystod tarfu.

**3. Adroddiad diogelwch**

Adolygodd y Bwrdd yr adroddiad diogelwch a nododd fod perfformiad diogelwch rheilffyrdd wedi aros yn sefydlog, heb anafiadau difrifol i deithwyr yn ystod y cyfnod adrodd ac adborth cadarnhaol gan y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd, a oedd yn cydnabod gwelliant sefydliadol parhaus. Trafododd yr aelodau effaith gynyddol tywydd poeth hir ar deithwyr, cydweithwyr, seilwaith a gweithrediadau, gan gytuno y dylid trin amodau o'r fath fel her weithredu arferol yn hytrach na fel digwyddiadau eithriadol. Adolygodd y Bwrdd hefyd ymosodiadau diweddar ar gydweithwyr, gan groesawu ymateb yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ac ailadrodd y disgwyliad y dylid erlyn troseddwyr lle bo hynny'n briodol. Roedd y drafodaeth hefyd yn canolbwyntio ar ddiogelwch bysiau, ymddygiad gwrthgymdeithasol, lles gyrwyr ac amodau'r gweithlu yn ystod tymheredd eithafol, yn enwedig mewn cerbydau hŷn heb systemau oeri. Mynegodd y Bwrdd bryder bod diwylliant o dderbyn methiannau gweithredol fel rhai anochel yn bodoli mewn rhannau o'r sector trafnidiaeth a chytunodd y dylid herio'r meddylfryd hwn. Roedd yr aelodau hefyd wedi ystyried digwyddiad ar groesfan reilffordd a allai fod â llawer o botensial ac wedi trafod risgiau ehangach sy'n gysylltiedig â rhyngwynebau rhwng gweithrediadau trenau a dylunio seilwaith. **[Lorenzo Visentin i fwrw ymlaen â'r camau gweithredu o'r drafodaeth].**

Gadawodd Lorenzo Visentin y cyfarfod.

**4. Adroddiad y Prif Weithredwr**

Derbyniodd y Bwrdd adroddiad y Prif Weithredwr a thrafododd berfformiad gweithredol y rheilffyrdd, blaenoriaethau strategol, ymgysylltiad y llywodraeth a heriau sefydliadol. Nododd yr aelodau fod perfformiad rheilffyrdd sylfaenol yn dal yn gryfach na blynyddoedd blaenorol, ond bod cyfnodau ailadroddus o dymheredd uchel wedi effeithio'n sylweddol ar brydlondeb a chanslo trenau. Trafododd y Bwrdd a oedd tybiaethau'r diwydiant ynghylch gwydnwch tywydd yn dal yn briodol a chydnabu'r angen i addasu seilwaith, cerbydau ac arferion gweithredu i amodau hinsawdd sy'n newid. Bu'r aelodau hefyd yn adolygu cynnydd gyda blaenoriaethau buddsoddi mewn rheilffyrdd a mentrau effeithlonrwydd sefydliadol, gan gefnogi ffocws parhaus ar herio arferion etifeddol y diwydiant a gwella'r ddarpariaeth. Croesawodd y Bwrdd y ffaith fod trenau tram Dosbarth 398 [redacted]

**Cytunwyd ar y cam gweithredu** canlynol **[Marie Daly, Lorenzo Visentin, Lee Robinson a Dan Tipper]** i wneud y canlynol:

- Dod â phapur Bwrdd cynhwysfawr yn ôl ar addasu i'r newid yn yr hinsawdd a gwydnwch gweithredol, gan ymdrin â rheilffyrdd, bysiau, effeithiau ar gwsmeriaid, lles cydweithwyr, gwydnwch seilwaith a thybiaethau gweithredol yn y dyfodol.

Ystyriodd y Bwrdd flaenoriaethau'r adolygiad o wariant a buddsoddi yn y rheilffyrdd yn y dyfodol. Nododd yr aelodau drafodaethau parhaus gyda Llywodraeth Cymru, cyllid datblygu a'r fframwaith blaenoriaethu sy'n cael ei ddefnyddio i gefnogi ceisiadau am gyllid yn y dyfodol. Trafododd y Bwrdd yr angen i fynegi manteision economaidd a chymdeithasol ehangach wrth hyrwyddo cyfleoedd buddsoddi mewn rheilffyrdd a chefnogodd y cyfeiriad cyffredinol.

**4.2 Perfformiad rheilffyrdd - cyfnod 2**
Adolygodd y Bwrdd berfformiad cyfnod 2 a nododd fod y perfformiad gweithredol sylfaenol yn gadarnhaol ar y cyfan cyn cael ei effeithio'n andwyol gan gyfnodau parhaus o dywydd poeth.

**4.3 Atodiad 3 – perfformiad rheilffyrdd cyfnod 3**
Adolygodd y Bwrdd berfformiad cyfnod 3 a nododd themâu tebyg, gyda pherfformiad y gwasanaeth yn dal yn gryf ar y cyfan ond ei fod yn cael ei effeithio gan heriau gweithredol sy'n gysylltiedig â gwres ailadroddus sy'n effeithio ar seilwaith, fflyd a phrofiad cwsmeriaid.

**4.4 Atodiad 4 – matricsau perfformiad rheilffyrdd**
Adolygodd y Bwrdd fetrigau perfformiad manwl a gofynnodd am ffocws parhaus ar ddeall tueddiadau perfformiad sylfaenol. Roedd yr aelodau'n cefnogi dadansoddiad pellach o ymyriadau gwydnwch a allai leihau effeithiau gweithredol sy'n gysylltiedig â'r tywydd yn y dyfodol.

**4.5 Cyllid**
Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ariannol bresennol a'r sefyllfa ariannol yn y tymor canolig, [redacted]
Trafododd yr aelodau ymgysylltiad Llywodraeth Cymru ynghylch gofynion cyllido yn y dyfodol a nododd bwysigrwydd cynyddol datblygu cynlluniau ariannol aml-flwyddyn. Roedd y Bwrdd yn cefnogi gwaith parhaus i nodi arbedion effeithlonrwydd ar yr un pryd â chydnabod bod rhai pwysau cost yn strwythurol ac na allai TrC ei hun eu rheoli.

**4.5.1 Adolygiad o fersiwn 1 o gyllideb 2028/29**
Adolygodd y Bwrdd dybiaethau cychwynnol y gyllideb ar gyfer 2028/29 a thrafododd y rhyngweithio rhwng buddsoddi mewn cerbydau, darparu gwasanaethau a chynaliadwyedd yn y tymor hwy. Roedd yr aelodau'n cydnabod y byddai angen i drafodaethau cyllido yn y dyfodol gydbwyso gofynion gweithredol â fforddiadwyedd a nodwyd y byddai rhagor o ymgysylltu â Llywodraeth Cymru yn dilyn.

**5. Diweddariad ar fysiau**
Ymunodd Lee Robinson â'r cyfarfod.

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd tuag at fasnachfreinio bysiau. Croesawodd yr aelodau gyhoeddiad Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru, y cynnydd o ran datblygu'r is-ddeddfwriaeth ofynnol, ymgysylltu parhaus ag awdurdodau lleol, a datblygiad parhaus y fflyd, depos a'r model gweithredu. Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar allu sefydliadol a diwylliant gweithredol, gydag Aelodau'n cydnabod yr angen i newid o ddull rheoli contractau i un sy'n canolbwyntio ar berchnogaeth rhwydwaith uniongyrchol, atebolrwydd

a rheoli perfformiad. Ystyriodd y Bwrdd hefyd barodrwydd technoleg, systemau gwybodaeth i gwsmeriaid, integreiddio data gweithredol a threfniadau parodrwydd busnes ehangach. Nododd yr aelodau fod llawer o waith eto i'w wneud i sicrhau bod systemau, prosesau a phobl yn gweithredu'n effeithiol fel un rhwydwaith integredig. [redacted] Ystyriodd y Bwrdd hefyd y defnydd o egwyddorion Gweledigaeth Sero yn y Strategaeth Diogelwch Bysiau sy'n cael ei datblygu a phwysleisiodd bwysigrwydd gwreiddio dull systemau diogel ar draws gweithrediadau bysiau yn y dyfodol. [redacted] Croesawodd y Bwrdd yr hyder cynyddol o ran cyflawni rhaglenni a phwysleisiodd bwysigrwydd cynnal momentwm yn erbyn cerrig milltir allweddol ac amcanion cyflawni.

**Cytunwyd ar y camau gweithredu** canlynol i'w cyflawni **[i Lee Robinson]:**

- [redacted]
- Bwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu ateb tocynnau digidol y gwasanaeth bysiau moethus rhwng y gogledd a'r de, gyda map ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol a swyddogaethau cwsmeriaid, gan ddarparu map i'w adolygu.
- [redacted]
- Adolygu ac adrodd ar gymhwyso egwyddorion Gweledigaeth Sero yn y Strategaeth Diogelwch Bysiau sy'n cael ei datblygu **[Lorenzo Visentin]**

Gadawodd Lee Robinson y cyfarfod.

**6. Bil Seiberddiogelwch a Seiberwydnwch**

Ymunodd Stuart Elliott â'r cyfarfod.

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am y Bil Seiberddiogelwch a Seiberwydnwch ac ystyriodd y goblygiadau i drefniadau llywodraethu, gwydnwch gweithredol a sicrwydd TrC. [redacted]

[redacted]

Nododd y Bwrdd y gweithgarwch sicrwydd parhaus a wnaed drwy'r Pwyllgor Archwilio a Risg a chydnabu bwysigrwydd cadw mynediad at arbenigedd seiber arbenigol priodol i ddarparu goruchwyliaeth, sicrwydd a her effeithiol. Ystyriodd yr aelodau hefyd fanteision posibl cryfhau llywodraethu seiber a thechnoleg o fewn strwythurau pwyllgorau presennol wrth i ofynion deddfwriaethol a chyfrifoldebau sefydliadol esblygu.

Cytunwyd ar y **camau gweithredu** canlynol:

- [redacted]

Gadawodd Stuart Elliott y cyfarfod.

**7. Strategaeth Cwsmeriaid**

Ymunodd Lewis Brencher â'r cyfarfod.

Adolygodd y Bwrdd y cynnydd o ran datblygu'r Strategaeth Cwsmeriaid a phwyso a mesur enghreifftiau o brofiad cwsmeriaid, diogelwch a darparu gwasanaethau. Trafododd yr aelodau bwysigrwydd deall profiadau cwsmeriaid go iawn, gan sicrhau bod effaith ar gwsmeriaid yn cael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau gweithredol a gwreiddio ymddygiad sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid ar draws y sefydliad. Trafododd y Bwrdd hygyrchedd, darpariaeth gwasanaethau analog a digidol a dysgu o brofiadau cwsmeriaid yn ystod tarfu a digwyddiadau mawr.

Gadawodd Lewis Brencher y cyfarfod

**8. Paratoi ar gyfer sesiwn rhanddeiliaid**

Ymunodd Ben George â'r cyfarfod i roi gwybodaeth i'r aelodau am ardal y De Orllewin a materion trafnidiaeth cyfredol.

**9. Sesiwn rhanddeiliaid**

Cyfarfu'r Bwrdd â Rob Stewart, James Davies, Jeremy Hurley a Martin Nicholls i drafod blaenoriaethau a chyfleoedd trafnidiaeth yn rhanbarth Abertawe. Roedd y trafodaethau'n canolbwyntio ar wella cysylltedd trafnidiaeth gyhoeddus, cefnogi datblygiad economaidd, gwella mynediad at gyfleoedd cyflogaeth ac addysg, a darparu rhwydwaith trafnidiaeth integredig ar draws gwasanaethau bysiau a threnau. Tynnodd rhanddeiliaid lleol sylw at bwysigrwydd gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus dibynadwy a hygyrch, gwell cysylltedd rhanbarthol a chydweithio parhaus rhwng Trafnidiaeth Cymru, awdurdodau lleol a phartneriaid rhanbarthol. Nododd rhanddeiliaid hefyd, er bod Gogledd a De-ddwyrain Cymru wedi elwa o fuddsoddiad sylweddol mewn

rheilffyrdd dros y blynyddoedd diwethaf a bod Canolbarth Cymru wedi elwa o newidiadau i gyfrifiadau dyraniadau cyllid trafnidiaeth rhanbarthol, mae De-orllewin Cymru wedi gweld gostyngiad yng nghefnogaeth y Gronfa Drafnidiaeth Ranbarthol. Roeddent yn pwysleisio bod gan y rhanbarth botensial sylweddol o ran twf economaidd, ond bydd gwireddu'r cyfleoedd hyn yn dibynnu ar flaenoriaethu buddsoddiad mewn trafnidiaeth i gyflawni'r gwelliannau angenrheidiol.

Trafododd y Bwrdd gyfleoedd buddsoddi mewn trafnidiaeth yn y dyfodol, rôl masnachfreinio bysiau o ran gwella integreiddio rhwydweithiau yn y rhanbarth, a'r manteision posibl sy'n deillio o alinio gwasanaethau bysiau a threnau yn agosach. Tynnodd rhanddeiliaid sylw at bwysigrwydd bysiau lleol i'r rhanbarth ac anogwyd cydweithwyr i ail-gynnal trafodaethau ynghylch y rhwydwaith uchelgeisiol os mai'r nod yw gwneud gwelliant ystyrlon. Roedd rhanddeiliaid hefyd yn myfyrio ar bwysigrwydd cefnogi twf economaidd cynaliadwy, gwella profiad cwsmeriaid a sicrhau bod seilwaith trafnidiaeth yn parhau i allu gwrthsefyll heriau amgylcheddol a gweithredol sy'n newid. Croesawodd yr aelodau'r cyfle i ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid a nodwyd y byddai safbwyntiau rhanbarthol yn parhau i lywio'r gwaith o ddatblygu blaenoriaethau trafnidiaeth a chynlluniau buddsoddi yn y dyfodol.

**10. Llywodraethiant**

**10.1 Bwrdd Rheilffyrdd Cymru – 24 Mehefin**

Canolbwyntiodd Bwrdd Rheilffyrdd Cymru yn ddiweddar ar drafodaethau ynghylch blaenoriaethau buddsoddi mewn rheilffyrdd, cynllunio strategol a chyfleoedd cyllido yn y dyfodol.

**10.2 Bwrdd Llywio – 24 Mehefin**

Nododd y Bwrdd faterion a drafodwyd gan y Bwrdd Llywio, gan gynnwys blaenoriaethau strategol, ymgysylltiad y llywodraeth a pherfformiad sefydliadol.

**10.3 Bwrdd Teithio Cynhwysol TrC – 25 Mehefin**

Trafododd y Bwrdd Teithio Cynhwysol yn ddiweddar faterion hygyrchedd, cynhwysiant a diogelu a chroesawodd y ffocws parhaus ar wella profiadau teithio i bob defnyddiwr.

**10.4 Diweddariad ar Is-gwmnïau**

**10.4.1 Bwrdd Rheilffyrdd TrC – 26 Mehefin**

Nododd Bwrdd Rheilffyrdd Cyf yn ddiweddar drafodaethau ynghylch diogelwch, perfformiad gweithredol, materion fflyd a gwydnwch seilwaith.

**10.5 Is-bwyllgorau'r Bwrdd**

**10.5.1 Y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Chynaliadwyedd – 29 Mehefin**

Canolbwyntiodd y pwyllgor ar faterion iechyd, diogelwch a chydymffurfiaeth, gan gynnwys gweithgareddau sicrwydd a risgiau allweddol.

**10.5.2 ARC – 10 Gorffennaf**

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Pwyllgor Archwilio a Risg, gan gynnwys materion sy'n ymwneud â rheolaethau mewnol, llywodraethiant a sicrwydd sefydliadol.

**10.5.3 Aliniad rhwng risg is-bwyllgor y Bwrdd ac amcanion y Prif Swyddog Gweithredol**

Adolygodd y Bwrdd aliniad rhwng cyfrifoldebau'r pwyllgor, risgiau sefydliadol ac amcanion gweithredol a chefnogi'r gwaith parhaus o fireinio'r trefniadau adrodd.

**10.5.4 Cylch Gorchwyl diwygiedig y Pwyllgor Archwilio a Risg**
Ystyriodd a chymeradwyodd y Bwrdd y Cylch Gorchwyl diwygiedig.

**10.5.5 Trafodaeth ar y posibilrwydd o gyfethol aelod i'r Pwyllgor Archwilio a Risg – TG a Seiberddiogelwch**
Trafododd y Bwrdd fanteision posibl arbenigedd ychwanegol a chytunodd y dylid penodi cyfarwyddwr anweithredol i'r pwyllgor i gryfhau trefniadau sicrwydd seiber a thechnoleg ymhellach.

Gan nad oedd unrhyw fater pellach, diolchodd y Cadeirydd i bawb am y cyfraniadau a daeth y cyfarfod i ben.